



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar
Ysgol Gynradd Casblaidd

Glancheddau
Cas-blaidd
Hwlfordd
Sir Benfro
SA62 5LZ

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Casblaidd

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Casblaidd
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Penfro
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	52
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	39
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	7
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	0.0%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	*
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	*
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	02/01/2023
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	01/11/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	19/02/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Casblaidd yn gymuned hapus a chyfeillgar. Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchio yn naws gartrefol a chynhwysol yr ysgol. Teimla'r disgyblion yn ddiogel a hapus a datblygant berthynas waith gryf â'r staff. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol ac maent yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn awyddus iawn i wneud eu gorau. Mae pawb yn cael eu parchu ac maent yn ofalgar iawn o'i gilydd.

Mae effaith arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn weledol ar draws yr ysgol. Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r staff ymroddedig yn gweithio'n hynod effeithiol i greu amgylchedd dysgu cynhwysol i'r disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro a gwerthuso'r cynnydd yn fedrus ac yn adnabod blaenoriaethau gwella yn synhwyrol. Mae'r llywodraethwyr yn weithredol fel ffrindiau beirniadol ac yn cefnogi holl weithgareddau'r ysgol yn fwriadus.

Darperir cwricwlwm creadigol, eang a chytbwys i'r disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau cyfoethog a gweithgareddau diddorol sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol. Maent yn sicrhau cyflymder addas i'r gweithgareddau ac yn darparu profiadau dysgu sy'n ysgogol. Fodd bynnag, mae tueddiad i staff arwain gormod ar y gweithgareddau, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn addas erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n datblygu medrau digidol priodol.

Nodwedd gref yw perthynas yr ysgol â'i chymuned leol. Rhoddir cyfleoedd cyson a gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol fel gwasanaethau yn y capel lleol a digwyddiadau'r wyl flynyddol sy'n fodd i feithrin eu hunanhyder a'u gallu corfforol, mynegiannol a chreadigol.

Argymhellion

A1 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

A2 Datblygu medrau digidol disgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn o'u manau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar gyfraniadau oedolion a chyfoedion. O oedran cynnar, mae medrau cyfathrebu Cymraeg llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n dda ac maent yn ymdrechu i'w siarad wrth fwynhau eu dysgu. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn cyfathrebu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddatblygu eu geirfa fwriadus ym mhob cyd-destun, er enghraifft drwy drafod penawdau newyddion yn ymwneud â phrotestiadau ffermwyr lleol.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn gynyddol hyderus. Maent yn darllen gyda mynegiant priodol, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau yn effeithiol i ddarllen geiriau llai cyfarwydd. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen yn gynyddol gywir yn y Gymraeg, ac mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn Saesneg. Mae llawer yn datblygu eu medrau darllen yn briodol ac yn trafod cynnwys testun yn synhwyrol ac aeddfed. Maent yn defnyddio goslef a mynegiant wrth ddarllen ar goedd. Yn ogystal, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain a choladu gwybodaeth yn y ddwy iaith.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau creu marciau ac yn ffurfio llythrennau a geiriau syml yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu'n rhydd ac yn cyflwyno eu gwaith yn drefnus a chliir gan ddefnyddio ffurf a geirfa briodol, er enghraifft wrth ysgrifennu rysâit gan ddefnyddio berfau gorchmynnol yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn awyddus i ddefnyddio geirfa newydd ac yn eu cymhwyso'n effeithiol yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol gan ddefnyddio ansoddeiriau pwrpasol yn eu darnau ysgrifenedig i roi ystyriaeth briodol i'r gynulleidfa, er enghraifft wrth ddwyn i gof ymweliad â Chastell Penfro ac wrth ymateb i'r cyngor lleol yn diolch am gyfraniadau ariannol i'r ysgol. Er hynny, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu darnau estynedig ac i fireinio a gwella eu gwaith yn ddigon rheolaidd.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. O oedran cynnar, maent yn adnabod rhifau i ddeg, ac yn grwpio gwrthrychau yn ôl eu priodweddau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddsbarthu dail yn ôl eu lliwiau a'u maint. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i fesur yn fanwl gywir ac maent yn hyderus wrth fesur maint tyrau maent wedi eu hadeiladu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn defnyddio'r pedwar gweithrediad mathemategol gyda hyder. Pan maent yn cael y cyfleoedd, mae llawer yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwaith ar draws y cwricwlwm yn briodol, er enghraifft wrth geisio gwneud elw mewn sialens mentergarwch leol.

Mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn dechrau defnyddio llechi digidol yn effeithiol i gofnodi eu gwaith ac i fewnbynnu nifer wynebaw, fertigau ac ymylon siapiau 3D i fasdata syml. Maent yn rheoli tegau rhaglenadwy yn llwyddiannus gyda chymorth oedolyn. Yn y dosbarthiadau hŷn, mae llawer yn ymchwilio'n ddiogel ar y we ac yn defnyddio rhaglenni i gyfrifo pellter ar fap rhyngweithiol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i drin data, creu taenlenni a llunio graffiau amrywiol a phwrpasol. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i ddatblygu eu medrau digidol ehangach ymhellach mewn gwahanol feysydd dysgu.

Mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn effeithiol i gynhyrchu gwaith gwreiddiol o safon a thrwy efelychu artistiaid enwog. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cerddorol drwy ganu a chwarae offerynnau yn y dosbarth ac mewn perfformiadau yn y capel lleol yn effeithiol.

Mae medrau corfforol bron bob disgybl yn datblygu'n dda. Maent yn dangos agweddau cadarn at weithgareddau corfforol. Maent yn mwynhau'r sesiynau addysg gorfforol ac yn ymroi'n bwrpasol i ddatblygu eu medrau.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn hynod gwrtais ac yn arddangos lefel uchel o barch tuag at ei gilydd a thuag at oedolion. Maent yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo'n hapus iawn o fewn yr amgylchedd cartrefol a chynhwysol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfradd presenoldeb uchel yr ysgol. Mae'r disgyblion a'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal mae'r staff yn ei ddarparu ac maent yn hyderus bod yr ysgol yn mynd i'r afael â datrys unrhyw bryderon a phroblemau yn gyflym.

Mae ymddygiad disgyblion yn arbennig o dda o fewn gwersi, yn ystod cyfnodau egwyl a phan fyddant yn gweithio'n annibynnol. Maent yn chwarae'n hapus ac yn fodlon yn ystod adegau egwyl. Mae'r disgyblion yn groesawgar tuag at ymwelwyr, yn mwynhau eu tywys o amgylch yr ysgol ac yn trafod agweddau o fywyd yr ysgol yn hyderus â nhw. Maent yn falch iawn o'u hysgol ac yn mwynhau bod yn rhan o'i chymuned.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn mwynhau ac yn ymroi i'w tasgau gyda chyffro a brwdfrydedd, yn enwedig yn ystod gwersi ymarferol a chreadigol fel 'Mercher Mwdlyd'. Mae'r sesiynau hyn yn

cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu eu medrau cydweithio, ymchwilio a meddwl. Mae llawer yn dangos dyfalbarhad yn eu tasgau ac yn canolbwyntio am gyfnodau hir. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd mewn grwpiau, mewn parau neu drwy gynorthwyo ei gilydd, pan fo angen. Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb yn gyson i adborth staff a'u cyfoedion. Mae disgyblion yn trafod gwaith ei gilydd yn effeithiol gan gyfeirio at y meini prawf llwyddiant yn briodol. Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r we. Maent yn trafod pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau a pheryglon datgelu gwybodaeth bersonol yn aeddfed. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud penderfyniadau doeth. Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gwneud dewisiadau da o ran bwyta ac yfed yn iach a'r effaith y mae'n ei chael ar eu hiechyd. Maent yn angerddol am ddod â ffrwyth i'r ysgol yn hytrach na losin neu siocled. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol ac yn cael mwynhad amlwg wrth gymryd rhan. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn mwynhau cynrychioli'r ysgol mewn cystadlaethau chwaraeon amrywiol. Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'r meddwl yn iach yn ogystal â'r corff. Maent yn siarad yn wybodus am bwysigrwydd ymlacio'r corff a meddwlgarwch.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau yn yr ysgol ac maent yn eu diwallu'n gydwybodol a gydag ymroddiad. Mae'r grŵp Iechyd a Lles, er enghraifft, yn cymryd eu rôl o hybu gemau iard yn ystod amser egwyl o ddi-fri. Maent yn ystyried hyn yn bwysig o ran iechyd personol a'r elfen gymdeithasol mewn ysgol fach. Mae'r cyngor ysgol yn frwd o ran annog disgyblion i gefnogi elusennau cenedlaethol a chyfranogi mewn diwrnodau penodol.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan staff berthynas gynnes iawn â'r disgyblion. Maent yn eu trin â charedigrwydd a pharch ac mae hyn yn creu amgylchedd cynhwysol lle mae hapusrwydd, lles a chynnydd pob disgybl yn flaenoriaeth.

Mae'r athrawon a'r cynorthwyr yn darparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb ac yn diwallu anghenion bron bob un disgybl yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio ystod o brofiadau cyfoethog sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol ac yn sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys. Ar ddechrau bob tymor, maent yn trefnu ymweliad neu brofiad arbennig er mwyn ysgogi'r disgyblion a'u llenwi â brwdfrydedd a syniadau ar gyfer y tymor i ddod. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i chymuned leol a'i hanes diddorol i sbarduno dychymyg disgyblion. Er enghraifft, yn ystod taith i Gastell Penfro, dysgodd y disgyblion lawer am Harri Tudur gan ennyn synnwyr o berthyn a balchder yn eu sir a'u cynefin. Taniodd yr ymweliad ddychymyg y disgyblion wrth weld gwaed draig yn yr ogof o dan y castell. Mae'r staff yn sicrhau bod y disgyblion yn wybodus am chwedlau Casblaidd a chymeriadau lliwgar lleol fel William Evans, capten llong a chwaraewr gwyddbwyll o fri, a Barti Ddu o Gasnewydd Bach.

Mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sydd wedi eu cynllunio'n ofalus. Maent yn adeiladu'n synhwyrol ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a phrofiadau disgyblion i sicrhau dilyniant wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol. Mae athrawon yn

cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chreadigol disgyblion. Er enghraifft, mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llafar disgyblion yn golygu bod safonau llafar disgyblion wedi gwella'n sylweddol. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cerddorol, perfformio a chorfforol yn rheolaidd. Golyga hyn fod llawer o ddisgyblion yn datblygu'n berfformwyr hyderus. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer medrau digidol disgyblion ar gyfer sut i drin data, creu taenlenni a llunio graffiau mor ddatblygedig.

Dros amser, mae'r ysgol yn cynnig nifer o weithgareddau i ddatblygu medrau addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Maent yn cynllunio ac yn dylunio gweithgareddau dysgu ddiddorol sy'n adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru a'r byd ehangach. Er hyn, nid yw eu cynlluniau ar gyfer addysgu disgyblion am hanes a phrofiadau cymunedau lleiafrifol mor fwiadus.

Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu yn effeithiol. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth i arwain y dysgu'n llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a, gan amlaf, maent yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol. Yn gyffredinol, mae staff yn fodolau rôl iaith effeithiol, ac mae hyn yn helpu disgyblion i ehangu eu geirfa ac i ddatblygu eu rhuglder yn dda. Ar y cyfan, mae staff yn holi disgyblion yn fedrus. Maent yn aml yn defnyddio technegau holi sy'n ymestyn a dyfnhau dealltwriaeth disgyblion ac yn adeiladu ar eu gallu i feddwl yn feirniadol. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn datblygu'r gweithgareddau dysgu â chyflymder addas. Mae'r staff yn cynnig adborth llafar defnyddiol i'r disgyblion yn ystod eu gweithgareddau ac mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gynyddol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Mae adborth ysgrifenedig athrawon yn cefnogi disgyblion yn effeithiol i ystyried meini prawf llwyddiant tasgau penodol.

Yn gyffredinol, mae cydbwysedd addas rhwng profiadau sy'n cael eu harwain gan staff a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, mae tueddiad i staff arwain gormod ar y gweithgareddau, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a datblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae'r holl staff yn rheoli ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol mewn ffordd positif a chadarn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Llwydda'r staff i wneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr lle gall bron bob disgybl ddysgu'n gynhyrchiol.

Mae staff yn defnyddio ystod o wybodaeth i dracio safonau, cynnydd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi'r staff i lunio darlun defnyddiol o ddatblygiad pob disgybl a'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gyda rhieni am gynnydd a lles eu plant. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r sylwadau yn y nosweithiau agored, gan gynnwys gosod targedau unigol y disgyblion. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddeall sut gallent helpu eu plant gartref.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol a'r staff yn adnabod eu disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol yn dda iawn. Mae arweinwyr a staff wedi datblygu trefniadau effeithiol i sicrhau bod y disgyblion a'u teuluoedd yn cael yr anogaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i

ffynnu yn yr ysgol. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion ac yn ymateb â sensitifrwydd i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol.

Mae trefniadau hynod effeithiol i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol bron bob disgybl, er enghraifft wrth roi cyfrifoldeb i ddisgyblion ofalu am anifeiliaid yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu hapusrwydd a'u medrau cymdeithasol, ac mae'r awyrgylch cefnogol yn helpu disgyblion i ymgysgu'n hawdd â bywyd ysgol.

Mae darpariaeth gadarn i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan y cydlynnydd ADY brosesau trylwyr i adnabod anghenion addysgol a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol ystod o ddarpariaeth gynhwysfawr sy'n cael ei defnyddio'n effeithiol wrth gynllunio cefnogaeth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni a gofalwyr ynglŷn â threfniadau ADY, gyda disgyblion yn rhan annatod o'r broses. Mae'r ysgol yn ystyried barn a theimladau'r plentyn, y rhieni a gofalwyr yn llawn fel rhan o'r trefniadau gwerthfawr. Mae staff yn gweithio'n agos â theuluoedd ac asiantaethau allanol i greu cynlluniau cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff y cymorth hwn, ynghyd â chyfathrebu'n rheolaidd â rhieni, effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u lles.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus er mwyn olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae'r staff yn adnabod a chlustnodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd effeithiol. Maent yn darparu rhaglenni cymorth penodol ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Trwy hyn, maent yn gwerthuso effaith yr ymyraethau yn ofalus gan fireinio ac ailosod camau defnyddiol ar gyfer gwella, sy'n galluogi disgyblion i barhau i wneud cynnydd da dros amser.

Un o gryfderau'r ysgol yw sut mae'r staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant. Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd hynod fuddiol i ddathlu eu Cymreictod ac i deimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned leol.

Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd bwriadus i gefnogi disgyblion i ddysgu am faterion sy'n ymwneud â chredoau amrywiol yn ogystal â myfyrio ar gwestiynau sylfaenol a'u gwerthoedd eu hunain. Cynhelir gwasanaethau cyson yn yr ysgol ac yn y capel lleol, a darperir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol ynddynt.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach ac annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau addysg gorfforol, sy'n cynnwys sesiynau ffitrwydd rheolaidd a chyfleoedd i gystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac o bwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus, drwy redeg milltir y dydd.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion leisio barn er mwyn cyfrannu at eu dysgu ac at fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau ac yn eu paratoi'n dda i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau ac i ystyried safbwyntiau

eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi barn am eu dysgu drwy gynllunio ar gyfer themâu dosbarth a thrwy waith y cynghorau disgyblion wrth hybu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chodi arian at y gymuned leol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu disgyblion. Mae staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn hynod effeithiol ac nid yw'r trefniadau'n peri pryder. Mae'r drefn o ran adrodd am bryderon diogelu am ddisgyblion yn gadarn ac mae staff yn cydweithio ag asiantaethau allanol, pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir sy'n seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus a gofalgwr er mwyn cynnig sylfaen gadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau craidd. Mae hyn yn seiliedig ar gefnogi disgyblion i fod yn ddysgwyr parchus ac uchelgeisiol sy'n barod i lwyddo. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth a balchder yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio'n naturiol ar draws cymuned glòs yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn hynod effeithiol ac yn annog disgyblion i ddatblygu eu medrau a'u doniau mewn amgylchedd ddysgu gynhwysol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y disgyblion a'r staff. Mae ethos o weithio fel tîm cynhyrchiol ymysg athrawon a chynorthwyr yn elfen nodedig o'r ysgol. O ganlyniad, mae'r holl staff yn cydweithio'n ddiwyd er mwyn darparu profiadau dysgu ysgogol a difyr sy'n diwallu anghenion y disgyblion.

Mae trefniadau i gefnogi, datblygu a dosbarthu arweinyddiaeth ar draws yr ysgol yn datblygu'n briodol. O fewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi datblygu tîm effeithiol o staff drwy ddosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn addas. Maent yn gwbl glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn ymroi'n llwyr i werthoedd yr ysgol gan hybu diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng yr holl aelodau staff. O ganlyniad, mae staff yn awyddus i ddatblygu'r ddarpariaeth i wella profiadau, cynnydd a medrau'r disgyblion, er enghraifft drwy ddatblygu medrau darllen y disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yn hynod effeithiol. Maent yn ymgymryd yn drwyadl ag amrywiaeth o weithgareddau monitro a gwerthuso perthnasol. Er enghraifft, mae aelodau gweithgar o'r is-banel cwricwlwm yn gyfrifol am ysgrifennu a monitro'r cynllun datblygu ysgol i werthuso cynnydd mewn safonau dysgu ac addysgu. Maent yn rhannu effaith y gweithredoedd gyda'r corff llawn yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Maent yn defnyddio eu profiadau o'u hymweliadau cyson i herio a chefnogi'r arweinwyr gyda'u gwaith. Mae'r pennaeth yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus, gyda chymorth profiadol y corff llywodraethol. Mae cynllun clir ar waith i sicrhau bod gwariant yn cefnogi amcanion strategol yr ysgol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr i hyrwyddo bwytia ac yfed yn iach ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae pwyslais cryf yn bodoli i sicrhau nad yw tlodi'n effeithio ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnig gwersi

offerynnol am ddim i bob disgybl yn unigol ac mewn grŵp. O ganlyniad, mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a'i chymuned yn arbennig o dda. Mae perthynas yr ysgol â'r rhieni yn gryfder ac mae'r cydweithio a'r cyfathrebu parhaus yn hybu'r ysgol yn ei chymuned yn hynod effeithiol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a llwyddiannus â'r gymuned leol i gynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cynnal gwasanaeth yn y capel lleol unwaith y tymor er mwyn cefnogi'r gymuned leol. Yn ogystal, mae'r pennaeth yn caffael barn rhieni am agweddau pwysig o brofiadau dysgu eu plant yn gyson ac yn ymateb i'w hargymhellion yn llwyddiannus, er enghraifft drwy ddatblygu sesiwn agored yn wythnosol er mwyn rhoi cyfle i rieni drafod cynnydd disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu a hyrwyddo diwylliant o hunanwella cyson sydd wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a medrau'r disgyblion. Mae gan arweinwyr ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r prosesau hyn yn datblygu'n gynyddol dda, gydag athrawon ac arweinwyr cwricwlwm yn cymryd rhan fwyfwy rhagweithiol.

Mae adroddiadau monitro yn cael eu dadansoddi'n fanwl i sicrhau bod safonau'n gwella'n barhaus. Mae'r camau gwella yn cael eu nodi'n glir a'u mireinio trwy broses effeithiol o ymgysylltu ag ystod dda o randdeiliaid, gan gynnwys y disgyblion. Drwy'r prosesau hyn, mae'r arweinwyr yn barod wedi nodi rhai blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Maent yn cynnig cyfleoedd cyfoethog iddynt ymgymryd ag ystod dda o ddysgu proffesiynol, sy'n ymateb i'w gofynion unigol a blaenoriaethau'r ysgol yn gadarn. EsiAMPLAU da o'r hyfforddiant a gynigir yw sut mae'r staff wedi datblygu darpariaeth darllen ar draws yr ysgol ac ymweld ag ysgolion cyfagos i ddatblygu dysgu yn yr awyr agored.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru: [Estyn](#)

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2024